

Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru - Cofnodion

Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2025 09:00-10:30 MS Teams

Yn bresennol

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai –
Cadeirydd

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg - Cadeirydd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Darren Price (Sir Gaerfyrddin)

Y Cyng. Lis Burnett (Bro Morgannwg)

Y Cyng. Charlie McCoubrey (Conwy)

Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)

Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)

Y Cyng. Dimitri Batrouni (Casnewydd)

Y Cyng. Paul Griffiths (Mynwy)

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Llywodraeth Leol

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC

Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC

Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid

Lisa Hayward – Swyddog Polisi Cyllid (Refeniw a Budd-daliadau)

Jane Thomas – A151 Cyngor Powys (Ysgrifennydd Cymdeithas Trysoryddion
Cymru)

Swyddogion Llywodraeth Cymru (ac eithrio arsylwyr)

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Chynllunio

Clare Blake – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi'r Dreth Gyngor

Ben Crudge – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Ardrethi Annomestig

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth
Leol

Emma Smith – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol

Simon Edwards – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol

Freya Gregory – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol – (Cofnodion)

David Greenhough – Pennaeth Ardoll Dwristiaeth

Elin Rowlands – Trysorlys Cymru, Pennaeth Cyflawni'r Gyllideb

Nia Webb – Ysgrifennydd Preifat

Andrew Wagstaff – Ysgrifennydd Preifat

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)

Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r aelodau am fod yn bresennol. Cytunodd y grŵp i ddefnyddio Microsoft Copilot i helpu swyddogion i ddrafftio'r cofnodion ar gyfer y cyfarfod hwn.

Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol

2. Cytunodd y grŵp ar gywirdeb y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol.

Eitem 3: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

3. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yn falch o fod wedi llofnodi'r Cytundeb Partneriaeth ar y Cyd yng nghynhadledd CLILC ac ymrwymodd i ddatblygu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ledled Cymru. Rhoddodd wybod y byddai'r gronfa Trefi Taclus a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog yn darparu £5 miliwn arall i lywodraeth leol i wella cymunedau, drwy lanhau strydoedd, adfer mannau a rennir, a gwella canolfannau lleol. Gofynnwyd i awdurdodau lleol weithio gyda chynghorau cymuned i sicrhau bod gwaith yn cael ei gydlynu ac yn canolbwyntio ar ardaloedd lle byddai'n cael yr effaith fwyaf. Byddai'r arian yn cael ei ddosbarthu gan ddefnyddio'r IBA mwyaf priodol o'r fformiwla setliad.
4. Croesawodd y Cynghorydd Hunt y cyllid gan annog cylchredeg manylion yn gyflym er mwyn i Awdurdodau Lleol ddechrau ar y gwaith cyn gynted â phosibl. Cadarnhaodd Emma Smith fod y llythyrau grant yn cael eu drafftio ar adeg y cyfarfod hwn.

Eitem 4: Papur 2: Cyllid ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol

5. Rhoddodd Emma Smith drosolwg o bapur dau a oedd yn dangos argymhellion gan DSG ar ddosbarthiad y cyllid Yswiriant Gwladol a ddyrannwyd yn y gyllideb atodol gyntaf. Esboniodd Emma fod DSG wedi ystyried y cronfeydd mewn tair adran; Costau cyflog cysylltiedig â NJC, costau cyflog athrawon a chostau cyflog awdurdodau tân, ac wedi edrych ar wahanol opsiynau dosbarthu yn seiliedig ar amcangyfrifon gwirioneddol a dosbarthiadau sy'n seiliedig ar fformiwla. Argymhellion DSG oedd dosbarthu'r costau NJC ac addysg trwy'r elfennau fformiwla setliad sy'n fwyaf cysylltiedig â thâl ac i arian yr awdurdod tân gael ei ddosbarthu yn seiliedig ar yr IBA tân. Gofynnodd Emma am sylwadau a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen â'r dosbarthiad cyllid.
6. Croesawodd y Cynghorydd Hunt y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn gan gydnabod y byddai pwysau ar awdurdodau lleol o hyd. Gofynnodd am drafodaethau parhaus ar sut i bontio'r bwlch ariannol a grëwyd gan ymagwedd Llywodraeth y DU at gyllid. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y byddai sgysiau parhaus yn ddefnyddiol a chadarnhaodd fod y grŵp wedi

cytuno ar argymhellion DSG i ddosbarthu cyllid yswiriant gwladol ar elfennau perthnasol y fformiwla setliad.

Eitem 5: Papur 3: Adolygiad Fformiwla (gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am sgysiau gyda Llywodraeth yr Alban

7. Rhoddodd Simon Edwards ddiweddariad ar y gwaith parhaus i adolygu'r fformiwla ariannu setliadau llywodraeth leol. Tynnodd sylw at y flaenoriaeth o ddiweddarau data teneurwydd, rhai ohonynt yn dyddio o gyfrifiad 1991, sy'n dosbarthu tua £450 miliwn o'r SSA yn ogystal â dangosyddion amddifadedd. Cadarnhaodd fod y dulliau ail-raddnodi fformiwla a amlinellir yn yr adolygiad PION wedi'u cymhwyso i'r fformiwla addysg Feithrin a Chynradd. Eglurodd y byddai angen i gasgliad data ar gyfer elfennau gwasanaethau cymdeithasol personol yr adolygiad fformiwla fynd rhagddo ochr yn ochr â'r gwaith ar fformiwlâu addysg. Nododd y disgwyliad y byddai newidiadau'n cael eu gweithredu ar gyfer setliadau 2028-2029, gyda mecanwaith graddio neu leddfu i reoli effeithiau tymor byr. Amlinellodd yn fyr yr hyn a ddysgwyd o ddatblygiadau yn yr Alban, lle mae'r model cyllido yn fwy manwl ac yn cael ei ddiweddarau'n amlach, er ei fod hefyd yn ddiffygiol mewn meysydd eraill.
8. Holodd y Cyngorydd Price ynglŷn â'r amserlen ac a fyddai lle i gryfhau gallu'r adolygiad gydag adnoddau gan awdurdodau lleol, neu Data Cymru i fyrhau'r amserlen. Cwestiynodd hefyd y defnydd o ddangosyddion teneurwydd amgen fel yn anheddiad yr Alban ac a oedd angen defnyddio dadansoddiad atchweliad. Anogodd y Cyngorydd Price hefyd fwy o oruchwyliaeth wleidyddol o'r adolygiad fformiwla.
9. Cytunodd Simon Edwards i ychwanegu ymholiadau'r Cyngorydd Price at ystyriaethau'r cynllun gwaith, ond rhybuddiodd y byddai ymchwilio i fwy o ddangosyddion posibl yn cael effaith ar amserlen y gwaith. Rhybuddiodd Simon ynghylch lleihau dadansoddiad atchweliad gan y gallai lleihau'r dystiolaeth ystadegol y tu ôl i benderfyniadau dangosyddion wneud cytundeb yn anoddach. Cynigiodd ddarparu nodyn ar y llywodraethu rhwng DSG a FSG a briffiau ysgrifenedig rhwng DSG a FSG rhwng cyfarfodydd.
10. Nododd y Cyngorydd McCoubrey fod 80% o gyllid awdurdodau lleol yn cael ei ariannu gan grant yn yr Alban, ond yng Nghymru mae hyn rhwng 40-30%, sy'n effeithio ar gyfraddau'r dreth gyngor, sydd tua thraean yn is ar gyfartaledd yn yr Alban. Roedd yn ystyried hyn yn bryder cyfiawnder cymdeithasol, gan fod y dreth gyngor yn taro'r tlotaf yn ein cymunedau galetaf ac awgrymodd y dylid cydnabod hyn mewn unrhyw waith ar y fformiwla ariannu. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yn cydnabod y pwyntiau hyn, a nodwyd y byddai'r gwaith helaeth i wneud y dreth gyngor yn decach, a'r ailbrisio a gynlluniwyd ar gyfer 2028, yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.
11. Croesawodd y Cyngorwyr Stewart a Batrouni y gwaith ar yr adolygiad fformiwla ond rhybuddiwyd y grŵp, oni bai bod y cyllid cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol

yn cynyddu, mai'r cwbl y byddai'r gwaith hwn yn ei wneud fyddai newid 'enillwyr a chollwyr' y setliad. Fe wnaethant annog y grŵp i weithio gyda'i gilydd i gynyddu adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol. Sicrhodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y grŵp y byddai'n parhau i gyflwyno'r achos dros fwy o gyllid i awdurdodau lleol.

Camau gweithredu – Simon Edwards i roi nodyn i FSG ar y llywodraethiant rhwng FSG a DSG, a sesiynau briffio ysgrifenedig parhaus ar y gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â'r adolygiad fformiwla.

Eitem 7: Diweddariad gan CLILC

12. Tynnodd y Cynghorydd Hunt sylw at y pwysau ariannol ar gyfer y flwyddyn 2026-2027, sydd gyfystyr â £454 miliwn yn seiliedig ar amcangyfrifon blaenorol, tua 5.5% o gyfanswm y gwariant. Nododd fod arolwg newydd allan gydag awdurdodau lleol ar adeg y cyfarfod. Nododd fod ysgolion a gofal cymdeithasol yn cyfrif am 68% o'r pwysau hwn, wedi'i ysgogi gan gyflog, chwyddiant contractau, a'r galw. Dros yr haf, roedd yn fwriad gan CLILC i ddiweddarau'r ffigurau hyn ar gyfer cyfarfod mis Medi, gan ganolbwyntio ar wariant ataliol a buddsoddiadau hirdymor. Roedd y Cynghorydd Hunt yn cydnabod yr her o gydbwyso gwariant hirdymor â chyfyngiadau cyllidebol a chefnogi gwasanaethau aciwt fel y GIG, ond nododd, ar gyfer llywodraeth leol, yr ansicrwydd ynghylch trafodaethau cyflogau gydag undebau a'r pwysau o tua £57 miliwn yn ymwneud â chostau Yswiriant Gwladol, er gwaethaf cymorth gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhagolygon tymor canolig yn parhau i fod yn heriol, a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau arian ar gyfer gofal cymdeithasol ac ysgolion heb orfod cynyddu'r dreth gyngor neu wneud toriadau i wasanaethau, yn enwedig yn y cyfnod cyn etholiadau Llywodraeth Cymru.
13. Nododd y Cynghorydd Burnett y berthynas ddibynnol rhwng gwariant ar wasanaethau ataliol a'r effaith ar wasanaethau mwy adweithiol fel iechyd a gofal cymdeithasol. Awgrymodd y Cynghorydd Burnett edrych ar y perthnasoedd hyn ymhellach, o bosibl drwy waith Simon Edwards ar y fformiwla ariannu, i ddeall cymhlethdodau gwariant a'i effaith ar bwysau a chymunedau awdurdodau lleol.
14. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r Cynghorydd Hunt am y diweddariad a dywedodd y byddai'n ddiolchgar am bapur mis Medi a thystiolaeth arall ar bwysau a gwasanaethau ataliol i lywio ei thrafodaethau gyda'r cabinet. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r Cynghorydd Burnett am godi'r pwynt hwn, gan gytuno bod y berthynas rhwng gwasanaethau ataliol a'r gwasanaethau drytaf yn bwysig ac y dylid eu monitro.
15. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol i'r grŵp am y drafodaeth. Gadawodd y cyfarfod bryd hynny. Ymunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg â'r cyfarfod.

Eitem 6: Diweddariad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid – 13 Mawrth 2025 – Cofnodion

16. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddiweddariad ar adolygiad gwariant cynhwysfawr Llywodraeth y DU, sy'n gosod cyllidebau refeniw am dair blynedd a chyllidebau cyfalaf am bedair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynyddu cymaint â £5 biliwn. Er bod hyn yn well na'r cyfnod llymder, mewn termau real mae'n cynrychioli cynnydd o tua 1% y flwyddyn. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod costau'n cynyddu y tu hwnt i'r gyfradd hon mewn rhai ardaloedd, gan wneud y setliad yn heriol. Tynnodd sylw at fanteision sylweddol eraill o'r adolygiad gwariant - dyrannu £180 miliwn dros dair blynedd ar gyfer diogelwch tomenni glo a £445 miliwn ar gyfer buddsoddiad mewn rheilffyrdd.
17. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg mai'r ymagwedd at gyllideb Cymru ar gyfer 2026-2027 fydd cyllideb wedi'i hadfer, hynny yw, y gyllideb bresennol gyda chynnydd o tua 2% ar gyfer chwyddiant. Roedd hyn yn adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol yn y Senedd a oedd bob amser yn gofyn am gytundeb rhwng pleidiau i basio cyllideb. Roedd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol, cynnydd mwy hael na'r lefelau a awgrymwyd gan adolygiad gwariant Llywodraeth y DU, wedi pasio o un bleidlais yn unig. Roedd o'r farn y byddai'r gyllideb arfaethedig yn cael ei chytuno drwy'r Senedd ac yn gynharach nag yn y blynyddoedd a fu. Byddai hyn yn golygu y cynhelir y ddadl gyllideb derfynol ar 27 Ionawr. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwydd y byddai pleidiau eraill yn cefnogi neu'n ymatal ar gynigion mwy uchelgeisiol. Byddai'r gyllideb wedi'i hadfer yn creu cronfa o gyllid heb ei ddyrannu, a amcangyfrifir hyd at £400 miliwn, a fyddai ar gael i lywodraeth newydd ei dyrannu yn unol â'i blaenoriaethau. Roedd yn disgwyl y byddai hyn yn cynnwys ystod o wasanaethau awdurdodau lleol.
18. Dywedodd er ei fod yn cydnabod y byddai cyllideb wedi'i hadfer gyda chynnydd ar sail chwyddiant yn heriol, byddai'n well na methu â phasio cyllideb. Os nad yw'r Senedd yn llwyddo i gymeradwyo cyllideb, mae Deddf Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer cyllidebau yn seiliedig ar 75% o gyllideb y flwyddyn gyfredol. Byddai hyn yn drychinebus i wasanaethau lleol. Roedd y Llywodraeth yn parhau i fod yn agored i gyllideb fwy uchelgeisiol pe byddai pleidiau eraill yn cytuno.
19. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud ar adolygiad gwariant Cymru. Nod hyn oedd edrych ar heriau a chyfleoedd yn y tymor hwy. Er enghraifft, newidiadau demograffig hirdymor, effaith deallusrwydd artiffisial ar wasanaethau, a phosibiliadau o ran codi refeniw. Nod yr adolygiad fydd canolbwyntio ar y galw yn ogystal â'r cyflenwad, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar i atal problemau rhag gwaethygu. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg bwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys CLILC, yn yr ystyriaeth hon.
20. Yn olaf, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), a basiwyd gan y Senedd ac y disgwylir iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol dros yr haf. Byddai hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol godi refeniw trwy ardoll ymwelwyr, i'w fuddsoddi yn y diwydiant twristiaeth. Roedd yr ardoll wedi'i gosod ar 75 ceiniog y noson ar gyfer llety nad

Cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid – 13 Mawrth 2025 – Cofnodion

yw'n hunangynhwysol a £1.30 y noson ar gyfer llety hunangynhwysol. Roedd yn credu y gallai'r bil hwn fod yn dempled ar gyfer pwerau trethiant lleol yn y dyfodol.

21. Ar gyfer Llywodraeth Leol, mynegodd y Cyngorwyr Hunt, Stewart, a Griffiths bryderon y byddai cynghorau'n cael eu cynghori rhag gwneud rhagdybiaethau ar y posibilrwydd o gyllid yn y dyfodol a gallai hyn arwain at benderfyniadau na ellir eu datrys drwy grantiau penodol o fewn y flwyddyn. Anogodd yr aelodau Ysgrifennydd y Cabinet i barhau i geisio datrysiad llai niweidiol.
22. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn rhannu'r pryderon hyn a chadarnhaodd y byddai'n parhau i edrych ar liniaru effaith cyllideb wedi'i hadfer. Anogodd aelodau'r grŵp i sicrhau bod eu gwleidyddion lleol ar bob lefel o lywodraeth yn deall y goblygiadau. Roedd yn parhau i fod yn agored i ddod i gytundebau ar sut i ddefnyddio'r £400 miliwn ychwanegol o fewn y gyllideb.
23. Pwysleisiodd y Cyngorwyr Burnett, Stewart, a McCoubrey bwysigrwydd yr ardoll ymwelwyr o ran cynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol, helpu i reoli effaith twristiaeth ar gymunedau a seilwaith a sicrhau dosbarthiad cyfartal buddion twristiaeth. Gofynnodd y Cyngorydd Stewart am gadarnhad na fyddai'r ardoll ymwelwyr yn disodli cyllid Llywodraeth Cymru, ac y byddai'n parhau i fod yn ychwanegol at hynny yn y blynyddoedd i ddod. Trafododd y Cyngorydd McCoubrey agweddau ymarferol gweithredu'r ardoll ymwelwyr, gan gynnwys pwysigrwydd tryloywder o ran y ffordd y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio, er mwyn cael cefnogaeth y cyhoedd a diwydiant. Soniodd y Cyngorydd McCoubrey hefyd am yr angen i ystyried yr effaith bosibl ar niferoedd ymwelwyr a sicrhau nad yw'r ardoll yn atal twristiaid rhag ymweld.
24. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i'r grŵp am y drafodaeth. Pwysleisiodd, er na allai siarad ar ran llywodraethau'r dyfodol, bod y llywodraeth bresennol wedi ymrwymo y bydd yr arian a godir drwy'r ardoll ymwelwyr yn ychwanegol at unrhyw gyllid arall. Nododd y byddai'r tryloywder gweithredu sy'n ofynnol yn y Bil yn ei gwneud hi'n anodd i lywodraethau'r dyfodol ei drin yn wahanol.

Eitem 8: Unrhyw fater arall

25. Ni chodwyd unrhyw fater arall.